



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Amgueddfa Cymru'n dysgu o'r gorffennol, gan edrych i'r dyfodol

Gweithio ar draws adrannau i gysylltu llinynnau cynaliadwyedd



Amgueddfa Cymru

Trosolwg

Mae'r stori hon ynghylch Datblygu Cynaliadwy yn edrych ar y ffordd y mae Amgueddfa Cymru wedi cynnwys cynaliadwyedd yn ei gweithrediadau trwy gynnwys ei holl staff wrth drosglwyddo manteision hir dymor, a hynny ers dros ddeng mlynedd.

Cefndir

Mae Amgueddfa Cymru yn deulu o saith amgueddfa genedlaethol ledled Cymru:

- Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis
- Amgueddfa Wlân Cymru, Drefach Felindre
- Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd
- Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe
- Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru, Blaenafon
- Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru, Caerllion a Sain Ffagan
- Amgueddfa Werin Cymru, Caerdydd
- Canolfan Casgliadau Cenedlaethol Nantgarw

Canlyniadau

Pennu canlyniadau sy'n ychwanegu at les Cymru

Tystiolaeth

Gwneud penderfyniadau gan ddefnyddio gwell gwybodaeth

Cydweithio

Gweithio gydag eraill ar draws ffiniau

Hir dymor

Rhoi sylw i'r achos yn hytrach na'r symptomau

Cysylltu

Canolbwyntio ar y manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol

Tryloywder

Mesur y gwahaniaeth yr ydych chi'n ei wneud ac adrodd arno

Dyma un o gyfres o straeon ar ddatblygu cynaliadwy sydd i'w gweld ar wefan Astudiaethau Achos Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/>

Prif nod Amgueddfa Cymru yw hyrwyddo addysg y cyhoedd. Mae'n cyflogi tua 650 aelod o staff, ac yn cael tua 1.6 miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn ar draws pob un o'r saith safle.

Ei chenhadaeth gyffredinol yw datblygu teulu o amgueddfeydd cenedlaethol sydd gyda'r gorau yn y byd, i ysbrydoli dysgu ac i gysylltu pobl â'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol. Mae Amgueddfa Cymru wedi cynnwys cynaliadwyedd yn ei gweithrediadau am dri phrif reswm; arian, diben a moeseg.

Pam

Diben craidd Amgueddfa Cymru yw addysgu'r cyhoedd. Gan fod cynaliadwyedd wedi dod i'r amlwg fel mater pwysig a bod gan yr amgueddfa arbenigedd sylweddol mewn pynciau cysylltiedig fel bioamrywiaeth a gwyddorau ffisegol, roedd yn teimlo mai ei chyfrifoldeb hi oedd cyfathrebu datblygu cynaliadwy yn ei harddangosfeydd a'i safleoedd.

Yn ogystal â'r diddordeb academiaidd hwn, mae yna ddiddordeb moesegol hefyd. Mae Amgueddfa Cymru yn teimlo bod ganddi ran bwysig i'w chwarae wrth daclo newid hinsawdd yn ogystal â heriau amgylcheddol a chymdeithasol eraill. Mae'n sefydliad sy'n hoffi cael ei weld fel un sy'n meddwl ymlaen ynghylch materion cenedlaethol sydd er budd pob un ac nid ar gyfer enillion ariannol yn unig.

Fel pawb yn y sector cyhoeddus, mae Amgueddfa Cymru wedi cael ergyd ariannol yn sgil gostyngiad mewn cyllid. Cwtogwyd ei grant refeniw dros 4% dros y tair blynedd a oedd yn arwain i fyny at 2013/14, a gostyngodd ei grant cynnal a chadw cyfalaf £325k (o £925k – sef 35%) yn 2011/12.

Mae'r toriadau wedi sbarduno'r sefydliad i ganolbwyntio ar arbed arian ac edrych yn y tymor hirach ar ffyrdd o greu refeniw trwy gynlluniau ynni adnewyddadwy.

Beth wnaethon nhw

Fe ddechreuodd Amgueddfa Cymru ei siwrnai cynaliadwyedd yn 2001 a buan y sefydlodd fforwm cynaliadwyedd i lywio strategaeth a fyddai'n canolbwyntio ar dri maes allweddol:

1. Rhaglennu cyhoeddus gan gynnwys negeseuon datblygu cynaliadwy o fewn cyd-destun hanes amaethyddol, gwyddonol, archeolegol, cymdeithasol a diwydiannol.
2. Ymchwil sy'n gysylltiedig â gwyddorau naturiol a chynnal yr amgylchedd naturiol.
3. Arferion gweithredol fel caffaeliad, gwastraff, ynni a theithio, y cyfan yn cael eu rheoli trwy'r Ddraig Werdd Lefel 3.

“Wrth iddo symud yn ei flaen, mae agenda cynaliadwyedd wedi cael ei hyrwyddo fwyfwy gan Lywodraeth Cymru ac mae hyn wedi ein hannog ni i barhau i deithio i'r un cyfeiriad, a hefyd i roi mwy o gyhoeddusrwydd i'r hyn yr ydyn ni'n ei wneud yn nhermau cynaliadwyedd.”

Mark Richards,
Dirprwy Gyfarwyddwr
Cyffredinol a Chyfarwyddwr

Dyma un o gyfres o straeon ar ddatblygu cynaliadwy sydd i'w gweld ar wefan Astudiaethau Achos Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/>

Sefydiodd Amgueddfa Cymru'r fforwm cynaliadwyedd tua wyth mlynedd yn ôl gyda chroestoriad o gynrychiolwyr o'r adrannau mwy, tua 15 i gyd, ac mae'n cynnwys staff sy'n delio gyda materion cynaliadwyedd yn ogystal ag unrhyw un sydd â diddordeb cyffredinol yn y maes hwn. O ganlyniad, mae'r fforwm wrth galon y mudiad erbyn hyn ac mae'n helpu gyrru newidiadau a fyddai fel arall, efallai, yn anodd eu gweithredu ar lefel leol. Lledaenir y gair ynghylch gwaith y fforwm yn dda ymhlith staff hefyd, trwy gyfarfodydd chwarterol i reolwyr uwch a chanol, gyda rheolwyr uwch yn cael y diweddaraf yn rheolaidd ynghylch materion sy'n dod i'r amlwg. Elfen hanfodol yw bod Amgueddfa Cymru yn adrodd yn flynyddol ar gynaliadwyedd i'w hymddiriedolwyr, ac felly nid yw'n cael ei roi i'r naill ochr ar y lefel strategol.

Er mwyn cefnogi gwaith y fforwm ymhellach, mae Amgueddfa Cymru wedi pennu 20 hyrwyddwr cynaliadwyedd yn yr adrannau mwy o faint, sy'n llwybrau cyfathrebu pwysig rhwng uwch staff rheoli a gweithredol. Fe fydd yr hyrwyddwyr yn tynnu sylw at unrhyw faterion y mae angen eu taclo ym marn y staff ac yn lledu'r gair ynghylch gwaith ehangach y fforwm ar draws y sefydliad, gan sicrhau bod eu hadran yn gwneud yr hyn sydd angen iddi ei wneud.

Mae Amgueddfa Cymru yn hoffi dweud wrth ei holl staff am y gwaith y mae'n ei wneud ar gynaliadwyedd, ac felly mae'n cynhyrchu cylchlythyr cynaliadwyedd bob 6 mis, a hefyd yn diweddarau pobl trwy ei safle mewnruyd ac yn rhannu straeon llwyddiant trwy ei blog cynaliadwyedd.

Beth newidiodd

O fewn rhaglennu cyhoeddus, gwelwyd cynaliadwyedd yn cael ei gynnwys fwy hefyd. Yn 2010, mewn cydweithrediad ag adran Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, cynhaliodd Amgueddfa Cymru arddangosfa 'Newid yn yr Hinsawdd, Beth sy'n Digwydd?' gyda neges addysgiadol i alluogi pobl i ddeall effeithiau newid hinsawdd a'r hyn sy'n ei achosi. Teithiodd yr arddangosfa i dros 25 safle ledled Cymru.

Yn y cyfamser, mae prosiect SCAN yn helpu ysgolion i hyrwyddo Addysg dros Ddatblygu Cynaliadwy, gan alluogi plant i gymryd rhan mewn ymchwiliadau a defnyddio adnoddau cynaliadwyedd rhad ac am ddim.

Bob blwyddyn yn Sain Ffagan, mae cartref eco Tŷ Gwyrdd yn galluogi miloedd o ymwelwyr i ddarganfod mwy am fyw'n gynaliadwy, siarad amdano a dysgu amdano. Mewn arferion gweithredol mae Amgueddfa Cymru hefyd wedi symud ymlaen yn dda ar gaffaeliad a nawr yn rhoi sylw i gostau oes gyfan cynnyrch a gwasanaethau, ac effeithiau hyn, ac yn gwerthuso perfformiad amgylcheddol ei chyflenwyr a'i chontractwyr.

“Gallen ni fod wedi rhoi ffocws amgylcheddol yn unig i'r fforwm, a chynnwys unigolion dethol, ond yna efallai y byddai yna deimlad ei fod yn cael ei reoli gan 'bobl sy'n frwd dros bethau gwyrdd' ac ni fyddai wedi cael perchnogaeth ar draws y sefydliad cyfan.”

Mark Richards
Dirprwy Gyfarwyddwr
Cyffredinol a Chyfarwyddwr
Gweithrediadau, Amgueddfa

Dyma un o gyfres o straeon ar ddatblygu cynaliadwy sydd i'w gweld ar wefan Astudiaethau Achos Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/>

Mae Amgueddfa Cymru wedi buddsoddi nawr i gynhyrchu incwm yn y tymor hirach. Gosodwyd system Gwres a Phŵer Cyfun ac mae hyn yn arbed tua £90,000 y flwyddyn iddi mewn biliau ynni yn yr Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd. Yn Nantgarw a Big Pit gosodwyd trefniannau ffotofoltäig 50kW sydd wedi costio £70,000 ac sy'n mynd i roi ad-daliad o tua £400,000 yr un dros gyfnod o 20 mlynedd trwy'r Tariff Cyflenwi Ynni. Bwriedir gosod mwy o gyfarpar gwres a phŵer cyfun yn Sain Ffagan gyda'r posibilrwydd o osod cyfarpar yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe hefyd.

O ran cludiant, roedd yr amgueddfa yn fuddugol yn Her Beicio Caerdydd 2012, gyda 50 aelod o staff yn dod i'r gwaith ar feic. Roedd cyflwyno cyfleusterau newydd a chawodydd wedi annog staff i ddod i'r gwaith ar feic.

Pa rwystrau oedd yn bodoli

Elfennau mwyaf hanfodol siwrnai Amgueddfa Cymru hyd yn hyn oedd sicrhau cynrychiolaeth ar draws adrannau yn y fforwm cynaliadwyedd, a sicrhau bod

penderfyniadau ynglŷn â chynaliadwyedd yn cael eu harwain gan uwch reolwyr. Mae cefnogaeth ar y lefel uchaf hefyd wedi bod yn allweddol i newid ymddygiad. Un enghraifft oedd newid at system argraffu ganolog. Roedd y staff yn amharod i gollu eu hargraffyddion unigol. Pan ddaw'r penderfyniadau hyn o'r fforwm, mae'n golygu bod cymeradwyaeth ar lefel uwch. O ganlyniad, cafwyd arbedion ar drydan, argraffu mwy effeithlon a llai o gostau ar gyfer Profion Cyfarpar Cludadwy.

I Mortimer-Jones mae'r fforwm yn gweithio'n dda oherwydd natur y bobl sy'n aelod ohono, a'u cyfuniad.

Roedd Mark Richards yn pwysleisio'r angen i edrych ar dystiolaeth a'r amserau ad-dalu wrth fuddsoddi, gan esbonio na fydd Amgueddfa Cymru fyth yn sefydliad sydd gyda'r cyntaf i ddefnyddio technoleg newydd, oherwydd y risgiau sy'n gysylltiedig. Mae'n edrych ar bethau gydag ymagwedd sy'n seiliedig ar risg, ac eisiau gweld technolegau'n cael eu profi yn gyntaf. Fodd bynnag, unwaith cânt eu profi fe fydd Amgueddfa Cymru'n eu cofleidio'n galonnog.

Mae gweithio gydag eraill a thynnu angerdd a sgiliau mewnol allan i'r amlwg wedi bod yn elfen hanfodol o lwyddiant Amgueddfa Cymru. Trwy ffrwyno arbenigedd ei staff ei hun a gweithio gyda sefydliadau eraill fel yr Ymddiriedolaeth Garbon, goresgynnwyd rhwystrau oedd yn atal newid ac mae cynaliadwyedd yn rhan o'r ffordd y mae'r amgueddfa'n gweithredu o ddydd i ddydd.

“Ni fydd pob aelod o staff yn teimlo'n angerddol am gynaliadwyedd, ac mae hyn yn medru achosi rhwystrau wrth gyflwyno polisiau fel gostwng y nifer o argraffyddion cyfrifiadurol ar draws safleoedd. Mae cael hyrwyddwyr adrannol ar draws yr amgueddfa, i esbonio manteision polisiau unigol, a'r rhesymeg tu ôl iddynt, yn fuddiol dros ben”.

Katie Mortimer-Jones,
Ysgrifenyddes y Fforwm
CynaliadwyeddCymru.Cymru.

Dyma un o gyfres o straeon ar ddatblygu cynaliadwy sydd i'w gweld ar wefan Astudiaethau Achos Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/>

Beth ddysgon nhw

O bersbectif ymgysylltu â'r gweithlu, mae cael pob aelod o staff yn y sefydliad i gefnogi yn her, fel y dywedodd Katie Mortimer-Jones, Ysgrifenyddes y Fforwm Cynaliadwyedd.

Un o'r heriau mwyaf yw'r cydbwysedd rhwng meddwl yn y tymor byr a meddwl yn y tymor hir. Gyda gweledigaeth 10 mlynedd, cynllun tair blynedd a chynllun gweithredol am un flwyddyn, mae Amgueddfa Cymru'n gweithio i fframwaith cyllid tair blynedd. Oherwydd hyn mae'n anodd gwneud penderfyniadau ar gyfer y tymor hir. Fodd bynnag, mae gwelliannau mewn technoleg, a'r meddylfryd o fuddsoddi ar gyfer y dyfodol, wedi bod o gymorth.

Wrth symud ymlaen, mae Amgueddfa Cymru yn chwilio'n barhaus am welliannau. Mae'n gweithio gyda gweddill y sector i newid canllawiau tymheredd penodol ar gyfer arddangosfeydd fel bod mwy o hyblygrwydd i newid lefelau gwres a lleithder mewn adeiladau. Mae hefyd yn siarad â Network Rail, Cyngor Caerdydd a Cardiff Bus Tours ynghylch gwella cysylltiadau cludiant cyhoeddus at ei safleoedd yng Nghaerdydd a Sain Ffagan.

Manylion Cyswllt a Dolenni

**Mark Richards – Dirprwy Gyfarwyddwr
Cyffredinol a Chyfarwyddwr Gweithrediadau**
Mark.Richards@museumwales.ac.uk
029 20573107

Amgueddfa Cymru
Tudalennau gwe cynaliadwyedd Amgueddfa Cymru
Prosiect SCAN
[@AmgueddfaCymru](#)

“Roedden ni'n ystyried cynlluniau ynni cyn hyn ond nid oeddent yn ymarferol oherwydd y cyfnod ad-dalu. Yn wreiddiol, byddai wedi golygu 4-5 mlynedd ond nawr, oherwydd gwelliannau mewn technoleg, a gan fod cost nwy a thrydan wedi codi, mae'r cyfnod ad-dalu wedi gostwng. Nawr, ein barn gyffredinol yw y byddwn ni'n ystyried prosiectau â chyfnod ad-dalu o lai na 10 mlynedd.”

Mark Richards,
Dirprwy Gyfarwyddwr

Dyma un o gyfres o straeon ar ddatblygu cynaliadwy sydd i'w gweld ar wefan Astudiaethau Achos Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/>



CHANGE
FOR
GOOD

